Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd:Swyddog Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | **Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd** |
| **Adran/Pwnc:** | **Gwyddor Data** |
| **Cyflog:** | **Gradd 8: £39,105 i £45,163 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS** |
| **Oriau gwaith:** | **35 awr yr wythnos (100% CALl)** |
| **Nifer y swyddi:** | **1** |
| **Contract:** | **Swydd am gyfnod penodol yw hon tan fis Tachwedd 2027** |
| **Lleoliad:** | **Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton** |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio ar brosiectau amrywiol ym mhortffolio'r Tîm Poblogaeth, Seiciatreg, Hunanladdiad a Gwybodeg (PPSI). Arweinir y tîm gan yr Athro Ann John, cyd-gyfarwyddwr DATAMIND, sydd wedi llwyddo i sicrhau cyllid am 5 mlynedd arall i barhau i weithio tuag at ei weledigaeth hirdymor i drawsnewid ymchwil i iechyd meddwl ar draws y pedair cenedl. Mae hi hefyd yn arwain y thema Gwyddor Data yng Nghanolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, gan ganolbwyntio ar leihau pryder ac iselder ymhlith pobl ifanc.<br>Mae'r prif ddyletswyddau'n cynnwys:<br>1. Creu ffenoteipiau iechyd meddwl yn seiliedig ar systemau côd clinigol megis SNOMED CT, gan ddefnyddio technegau wedi'u llywio gan ddata.<br>2. Cynnal arolygon i wella platfformau sy'n cefnogi ymchwil iechyd meddwl.<br>3. Cydweithredu â phobl eraill i ateb cwestiynau ymchwil iechyd meddwl, dadansoddi cronfeydd data mawr iawn gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau epidemiolegol a dysgu peirianyddol.<br>4. Gweithio'n agos gyda thimau DATAMIND, PPIE a SAIL yn cefnogi gwaith trosi cwestiynau ymchwil.<br>5. Ymgymryd â dadansoddiadau data hynod gymhleth a strwythuredig gan ddefnyddio cyfuniad o dechnegau epidemiolegol a dysgu peirianyddol, gan ymdrin yn briodol â chofnodion a allai fod wedi cael eu dyblygu, data coll neu anghywir, a dogfennu'r fethodoleg.<br>6. Ysgrifennu adroddiadau a phapurau ar y cwestiynau ymchwil a'r dadansoddiadau uchod a chyflwyno canfyddiadau mewn cynadleddau.<br>7. Cyfrannu at gyflwyno ceisiadau am grantiau i sicrhau cyllid ar gyfer ymchwil bellach a ysgogir gan Ddeallusrwydd Artiffisial.<br>8. Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd prosiectau a chyfrannu at drafodaethau ynghylch gwelliannau ym maes gwyddor data iechyd meddwl.<br>9. Cynorthwyo wrth reoli prosiectau i sicrhau bod yr holl allbynnau'n cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.<br>10. Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd, yn unol â chyfarwyddyd y Prif Ymchwilydd neu ei gynrychiolydd enwebedig. |
| | 11. Cyfrannu at ymchwil ac ymgymryd â hi mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau gan ddangos rhywfaint o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil honno.<br>12. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig y rhai hynny sydd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid (e.e. rhyngwladol) neu gyhoeddiadau cymharol, a hynny'n rhan arferol o'i rôl.<br>13. Dangos hunangymhelliant, a defnyddio eich menter eich hun er mwyn dod o hyd i ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen.<br>14. Defnyddio creadigrwydd i ddadansoddi a dehongli data ymchwil a llunio casgliadau ar sail y canlyniadau.<br>15. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym myd diwydiant/masnach ac yn y byd academaidd. |

| | |
|---|---|
| | 16. Cyfrannu'n rhagweithiol at ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol i gefnogi eich gwaith eich hun, gwaith eraill a'r Gyfadran a'r sefydliad yn gyffredinol. Disgwylir i'r unigolyn a benodir ysgrifennu neu gyfrannu'n weithredol at ysgrifennu ceisiadau o'r fath, fel rhan arferol o'i rôl<br>17. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n ddidrafferth a helpu i gynyddu ei phroffil ymchwil allanol.<br>18. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol a phenodol a'r maes pwnc ehangach a'r goblygiadau ar gyfer cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth neu'r byd academaidd.<br>19. Gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau pan fo angen gan ddefnyddio'r cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol.<br>20. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>21. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>22. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion llyfrau log prosiectau'n cael eu rhoi i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 23. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal cysylltiadau gwaith cadarnhaol.<br>24. Cynnal rôl y swydd a'r holl weithgareddau'n unol â pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd a systemau rheoli, er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y gwaith.<br>25. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>26. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/y Gyfarwyddiaeth/y Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Cymhwyster gradd ôl-raddedig neu gyfwerth mewn Seiciatreg/Epidemioleg/Iechyd y Cyhoedd/Gwyddor Data Iechyd.<br>2. Brwdfrydedd am gymryd rhan mewn ymchwil iechyd meddwl a gwybodeg iechyd.<br>3. Tystiolaeth o ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil yn ddelfrydol ym maes epidemioleg/iechyd y cyhoedd, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br>4. Tystiolaeth o'r gallu i gynllunio gwaith ymchwil ac ysgrifennu neu gyfrannu at ysgrifennu ceisiadau am gyllid arian ymchwil allanol.<br>5. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad mewn ymchwil – penderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i fwrw ymlaen â'r gwaith.<br>6. Medrusrwydd mewn ieithoedd rhaglennu megis Python, R, SQL.<br>7. Tystiolaeth o arbenigedd mewn epidemioleg a/neu ystadegau.<br>8. Tystiolaeth o gynnal ymchwil dysgu peirianyddol a dehongli canlyniadau cymhleth.<br>9. Cyfarwydd â phrosesu data'n rhagarweiniol, glanhau data a'i strwythuro at gymwysiadau dysgu peirianyddol.<br>10. Cyfarwydd â llyfrgelloedd rhaglennu megis TensorFlow, PyTorch, neu Scikit-learn.<br>11. Gallu rheoli eich tasgau a'ch gweithgareddau gweinyddol eich hun i fodloni dyddiadau cau.<br>12. Sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar.<br>13. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br>**Meini Prawf Dymunol**<br>14. PhD mewn maes perthnasol. |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | 15. Profiad o ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial at ddibenion dadansoddeg ragfynegol mewn ymchwil iechyd meddwl a gwybodeg iechyd.<br>16. Dealltwriaeth o ddata mawr a'i integreiddio i biblinellau Dysgu Peirianyddol.<br>17. Profiad o ymchwil iechyd meddwl a gwybodeg iechyd.<br>18. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig.<br>19. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>20. Tystiolaeth o gynnal ymchwil dysgu peirianyddol a dehongli canlyniadau cymhleth.<br>21. Gwybodaeth am weithio gyda data cyffredin megis cofnodion Meddygon Teulu a derbyniadau i'r ysbyty neu brofiad o hyn, a dealltwriaeth o thesawrysau'r GIG a chodio clinigol a'u defnydd yn y GIG.<br>22. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Dara Almeida Medina dara.almeidamedina@abertawe.ac.uk |

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter

Stonewall Cymru Diversity Champion

HR Excellence in Research